**Cyngor Bro Llanllwni     Adroddiad Cyfarfod Mehefin 2024**

Cynhaliwyd y Cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys, Llanllwni.
Roedd y Clerc wedi rhoi'r agenda yn y Swyddfa Bost cyn y cyfarfod.

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfodydd.

PLISMONA
Nid oedd heddwas yn bresennol yn y cyfarfodydd.

Y CAE CHWARAE
Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi'u harchwilio'n fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf. Nid oedd damweiniau i'w cofnodi. Bydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn archwilio'r adnoddau yn ystod Hydref 2024.

GWEFAN LLANLLWNI
Roedd Adroddiadu'r cyfarfodydd misol yn cael eu gosod ar y wefan ac yn ymddangos yn y wasg.

HYFFORDDIANT DIFFIBRILYDD
Roedd y diffibrilion yn eu lle erbyn hyn a hyfforddiant yn cael ei drefnu ar gyfer misoedd yr haf.

CWTERION A DŴR YN CRYNHOI AR Y FFYRDD
Mae swyddogion y Cyngor Sir a'n cynrychiolydd etholedig ar y Cyngor Sir wedi derbyn yr holl gwynion a ddaeth i sylw'r Cyngor Bro.

TYLLAU AR HYD Y FFYRDD
Mae'r cynghorwyr am geisio trefnu cyfarfod gyda swyddogion y sir i drafod yr amryw ddiffygion sy'n effeithio ar y ffyrdd.

MANTOLEN
Cyflwynwyd y fantolen ddiweddaraf i'r Cynghorwyr.

BANCIO
Mae'n ymddangos y bydd yr helyntion diweddar yn sgil cau'r gangen leol o Fanc Lloyds yn cael ei datrys pan fydd y Clerc yn ymweld â changen Caerfyddin.

PRAESEPT
Penderfynwyd cadw'r praesept yn ddigyfnewid.

PEILONAU GREEN GEN CYMRU
Doedd dim gwybodaeth bellach wedi dod i law yn ddiweddar.

BINIAU SBWRIEL
Mae biniau sbwriel wedi mynd ar goll o'r safleoedd canlynol: Green Park, Pentop, Cilfan Maescoch.

CROESFFORDD TEGFAN – PANTLLYN – PARK LANE:

Gan fod ceir yn parcio ar bob ochr i'r groesffordd does dim modd gweld wrth ymuno â'r A485. Penderfynwyd y byddai'r Clerc yn danfon llythyr at Gyngor Sir Caerfyrddin yn nodi pryder am y sefyllfa.

GWASTOD BRYN:
Penderfynwyd bod angen gosod rhwystrau i atal ceir rhag mynd dros y clawdd ac i mewn i'r cae.

Penderfynwyd cefnogi: Ysgol Llanllwni.

PWLL JAC – FFERM FELINDRE:
Mae angen atgyweirio'r giât ar y llwybr cyhoeddus o Pwll Jac i Fferm Felindre. Bydd y Clerc yn anfon ebost at Cyngor Sir yn holi pwy sy'n gyfrifol am atgyweirio'r giât.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni nos Lun 15 Gorffennaf am 8.00yh.